# LLANFAIR YN NEUBWLL CYNGOR CYMUNED

---

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Nos Fawrth 21 Chwefror 2023

**Presennol:** Cynghorydd Siân Enfys Jones – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Gordon Owen a William Victor Owen

Hefyd yn bresennol: - Ken Taylor - Cynghorydd Sir.
Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol.

1. **Ymddiheuriadau:** Celfyn Furlong, Lowri Owen, Sharon Parry, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.

2. **Datganiad o Ddiddordeb** – Datganodd y Cynghorydd K. Taylor ddiddordeb mewn materion cynllunio oherwydd ei rôl ar y Pwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion 17 Ionawr 2023 yn gywir (Cynigiwyd Cyng. Siân Enfys Jones, eilio Cyng. G.O. Jones.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Roedd y gwaith ar y ffiniau dal angen ei wneud.

4.2 Diffibriliwr – Roedd y Cynghorydd G.O.Jones yn disgwyl ateb gan CSYM ynglŷn â'r posibilrwydd o gysylltu diffibriliwr i lamp stryd gan fod Cyngor Sir Gwynedd yn gwneud hyn. Byddai cost o £875 am y cyfarpar, £423 am y cabinet a £180 am ei osod. (Roedd TAW ar ben y rhain). Doedd dim grantiau ar gael ar hyn o bryd ond byddai'n dal ati i geisio dod o hyd i safle addas.

4.3 Peiriant dosbarthu pecynnau gwastraff cŵn - cafwyd pris am yr offer ond nodwyd bod y bagiau i'w ail-lenwi yn arbennig o ddrud. Cytunwyd i beidio â bwrw ymlaen â hyn nes iddi dderbyn ymateb ynghylch cael bin arall wrth Ysgol y Tywyn.

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim

5. **Penderfyniadau Cynllunio –** dim.

6. **Ceisiadau cynllunio**

6.1 **FPL/2023/14 Glanrhyd Isaf, Fali/Valley**
Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol i storio peiriannau – dim gwrthwynebiad

7. Cyflwynwyd a chadarnhawyd adroddiad ariannol y SCC ar gyfer y cyfnod rhwng 1.1.2023 a 31.1.2023 ynghyd â chysoniadau banc a datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

Cyfrif cyfredol £ 32,483.73, Cyfrif deposit £3,940.64

7.1 Dywedodd y Clerc fod y Ddogfen Archwilio wedi ei dderbyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a thrafodwyd yr adroddiad yn fanwl. Roedd yr Archwilydd wedi cadarnhau "Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan roi achos pryder mewn unrhyw barch materol, y wybodaeth a adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol hon. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r adroddiad nad oedd y wybodaeth i gyd ganddo wrth iddo wneud ei waith. Anfonwyd y wybodaeth 'goll' am drefniadau ar gyfer gwneud taliadau ac ati iddo drwy ebost (a chafwyd cadarnhad o'i derbyn) ar 28.8.2022 a gofynwyd iddo edrych ar y mater eto." Fe gafwyd cydnabyddiaeth o'r cais ond nid oedd wedi ymateb ymhellach.

Ers hynny roedd yr holl ddogfennaeth y gofynnwyd amdanynt gan yr Archwilwyr wedi eu dychwelyd a nodwyd fod copi gwreiddiol o'r ddogfen 'goll' a lofnodwyd yn briodol gan y Cadeirydd a'r Clerc yn eu plith.

**8.** Taliadau i'w gwneud:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Ionawr.) | £396.82 | Archwilio Cae Chwarae | £46.08 |
| Rhent Neuadd | £400 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SCC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

8.1 Lwfans Aelodau – Atgoffwyd aelodau o'r polisi a'r taliad gorfodol o £150.

8.2 Rhoddion: cytunwyd i roi £500 i Eisteddfod Môn 2024.

**9.** Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

9.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol – diwygiadau pellach

9.2 Rhag-rybudd: Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – cyfarfod Zoom 6.30pm 27.2.2023

9.3 Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn – Cyfle i ddweud eich dweud

9.4 Adroddiadau Adran 6 (cynnal a gwella bioamrywiaeth)

9.5 Gorchymyn Rheoleiddio Traffig - Ffordd Minffordd

9.6 Cais am enwebiadau ar gyfer Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin 2024

9.7 Arolwg Anghenion Hyfforddiant 2023

9.8 Hyfforddiant ymwybyddiaeth seibier i gynghorwyr- cyflwyniad

**10. Adroddiadau Aelodau:**

Cyng. William Victor Owen: roedd wedi mynychu cyfarfod o Fwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan. Cytunwyd bod Mr Sean Taylor am gael codi giât drydan wrth y fynedfa i Cymyran a nodwyd fod y cyflenwad trydan iddi o Tyn Giat.

**11. Cyfarfod nesaf – 21 Mawrth 2023.**